CIWB

**Tasg 3**

# Pwy sy'n dweud beth?

Mae staff yr ysgol, y disgyblion a'r rhieni'n edrych 'nôl dros y flwyddyn.

Dyma beth mae rhai o'r bobl yn dweud, ond pwy sy'n dweud beth?

Ysgrifennwch eich syniadau chi o dan y swigod.

Rhowch resymau dros eich atebion.

**Dw i wedi trwsio un deg wyth o ffenestri achos Sam Pryce a'i ffrindiau'n cicio'r bêl droed yn rhy galed ar yr iard! Maen nhw'n ofnadwy am dorri ffenestri!**

Dw i wedi coginio dwy fil ac wyth o pizzas Margherita a dwy fil un deg pump o pizzas pinafal a ham. Dw i wedi paratoi wyth mil pum cant a naw deg chwech o jelis ffrwythau. Dw i'n breuddwydio am pizzas a jelis!

**Blwyddyn wych! Enillodd y tîm pêl-droed gwpan y sir ac enillodd Daisy Williams y ras nofio dau gan metr. Roedd y tîm hoci'n ail yng nghystadleuaeth yr Urdd.**

**Blwyddyn ffantastig! Enillodd Bl. 9 y cwis llyfrau Cymraeg ac roedd Bl. 7 yn y cwis "Clyfar!" ar y teledu. Enillon nhw ddim ond roedden nhw'n ardderchog!**

**Rydyn ni wedi cael Noson Bingo, parti Nadolig, dawns Dwynwen, taith gerdded i fyny'r mynydd ac rydyn ni wedi codi deg mil o bunnau i'r ysgol. Byddwn ni'n rhoi'r arian i'r Pennaeth ar nos Wener, 17 Gorffennaf yn ystod noson arbennig iawn – Cystadleuaeth Anifeiliaid Anwes.**

*Blwyddyn grêt. Dw i wedi chwarae yn y tîm pêl-droed. Dw i wedi dysgu sut i wneud pizza. Dw i wedi gwneud poster Cymraeg a ... mae Jo a fi'n mynd allan!*

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| rhieni | parents | paratoi | to prepare |
| swigod | bubbles | breuddwydio | to dream |
| rhesymau | reasons | sir | county |
| trwsio | to mend, repair | ail | second |
| rhy galed | too hard | cystadleuaeth | competition |
| mil | thousand | taith gerdded | walk |

CIWB

1. Beth ydy'r rhifau yn y darnau? Ysgrifennwch y rhifau mewn geiriau a ffigurau yma.

2. Beth mae pobl a staff eich ysgol chi'n dweud ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, tybed?

Ysgrifennwch yn y swigod, ond peidiwch dweud pwy sy'n siarad.

Yna, darllenwch y swigod i'r grŵp. Rhaid i'r grŵp ddyfalu pwy sy wedi dweud beth.